

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN
ANGLESEY AND GWYNEDD PUBLIC SERVICE BOARD

Dydd Iau, 5 Gorffennaf 2018 14:00-16:00

COFNODION

Presennol	
Enw	Sefydliad
Dyfrig Siencyn (Cadeirydd)	Cyngor Gwynedd
Cyng. Llinos Medi Huws	Cyngor Sir Ynys Môn
Jerry Hunter	Prifysgol Bangor
Nigel Harrison	Heddlu Gogledd Cymru
Chris Lynes	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Caroline Turner	Cyngor Sir Ynys Môn
Siobhan Adams	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Shan Morris	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Elizabeth Woodcock	Ymchwilydd Ôl Raddedig
Dilwyn Williams	Cyngor Gwynedd
Ffrancon Williams	Cartrefi Cymunedol Cymru
Sian Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Sian Purcell	Medrwn Môn
Iwan Jones	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Yn Mynychu	
Nonn Hughes	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Dewi Jones	Cyngor Gwynedd
Sian Owen	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau	
Ffion Johnstone	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Morag Olsen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bethan Russell Williams	Mantell Gwynedd
Andy Jones	Gwasanaeth Prawf Cymru
Emyr Williams	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Dr Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Caryl Owen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Diane Davies	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Hannah Griffith	Gwasanaeth Prawf Cymru
Janet Roberts	Cyngor Gwynedd

1. Cylch Gorchwyl - eitem sefydlog

Dim newidiadau i'w cyflwyno

3. Cofnodion i'w cymeradwyo a materion yn Codi (27ain o Fawrth 2018)

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r trafodaethau.

Mewn perthynas â'r pwynt gweithredu yn ymwneud a chynnig lechyd a Gofal o weithio'n Isranbarthol - nodwyd fod y grŵp wedi ei sefydlu.

Cytunwyd bod y pwyntiau gweithredu eraill wedi eu cynnwys ar yr agenda.

4. Cynllun Llesiant Terfynol - amlygu'r newidiadau a ymgorfforwyd ers y cynllun drafft

Cadarnhawyd fod y Cynllun Llesiant terfynol wedi ei gyhoeddi ar wefan Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn. Nododd Dewi Jones nad oedd llawer o newid wedi ei gyflwyno ers y ddogfen a ymgynghorwyd arni. Eglurodd mai'r amserlen cyhoeddi oedd y rheswm dros hyn. Ychwanegodd bod y Cynllun Llesiant yn ddogfen fyw felly bydd modd adolygu yn gyson. Mae'r sylwadau a gyflwynwyd wedi eu hanfon at grŵp tasg sydd i'w arwain gan Sian Purcell.

5. Diweddariad ar y strwythur cyflawni (Adroddiadau ar lafar)

Amcan 1 - Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hirdymor -

Cafwyd diweddariad gan Jerry Hunter, Cadeirydd grŵp yr Iaith Gymraeg.

Nododd JH fod y cyfarfod wedi bod yn llwyddiannus iawn. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo 3 ffrwd gwaith :

- 1) Cydweithio a Chydlynu Prosiectau Cymraeg yn y Gweithle; rhannu arferion da, rhannu adnoddau er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian.
- 2) Profiad y Dinesydd o safbwynt ymwneud â gwasanaethau a'r iaith Gymraeg
- 3) Yr iaith a thaith plentyn trwy addysg - gan adnabod y bylchau yn y rhwydweithiau sy'n cysylltu sefydliadau a'r rhwystrau sy'n cadw plant/pobl ifanc rhag dal gafael ar eu Cymraeg.

Cafwyd trafodaeth ymysg aelodau'r Bwrdd am y math o waith y gellir ei gomisiynu, yr angen am adnoddau a'r dulliau gweithredu.

Cytunwyd y buasai amlinelliad o strwythur llywodraethu'r Bwrdd a'r Grwpiau yn ddefnyddiol. Yn ogystal templed ar gyfer adrodd ar eu cynlluniau gweithredu.

1	Gweithred:	NH & DJ i greu templed cynllun gweithredu a siart llywodraethu erbyn cyfarfod 12fed Fedi 2018.
---	------------	--

Cafwyd diweddariad gan Ffrancon Williams, Cadeirydd grŵp Cartrefi ar gyfer pobl leol.

- Mynegodd Cyng.Llinos Medi Huws pryder ynglŷn â rhai o'r opsiynau oherwydd roedd trefniant gwahanol yn Ynys Môn o gymharu â Wynedd. Buasai rhaid cael cytundeb gwleidyddol i rai opsiynau o bosib trwy Bwyllgor Gwaith y Cyngor
- Nododd Sioned Rees fod angen hefyd ystyried effaith Wylfa ar y flaenoriaeth yma.
- Nodwyd mai cam nesaf y grŵp fydd trefnu cyfarfod arall i drafod yr opsiynau ymhellach ac i gynnwys aelodaeth ehangach

Cafwyd diweddariad gan Nonn Hughes ar ran Bethan Williams, sy'n arwain ar y grŵp Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau.

Bethan Williams sydd wedi ei hadnabod fel aelod o'r Bwrdd sy'n gyfrifol am arwain ar y flaenoriaeth

Yn dilyn sgwrs gychwynnol gyda Bethan dyma a gytunwyd

- Bydd cyfarfod cyntaf o'r grŵp blaenoriaeth yn cael ei gynnal cyn diwedd Gorffennaf
- Yn cydnabod bod agweddau gwahanol o dlodi e.e. daearyddol/ teuluol. Bydd y grŵp angen defnyddio'r data a gasglwyd ar gyfer yr asesiad llesiant fel sylfaen ar gyfer eu cynlluniau / prosiectau
- Er mwyn rheoli disgwyliadau (mae'r cyhoedd wedi cyfrannu at yr asesiad a'r cynllun ers peth amser) bydd y grŵp yn rhoddi ystyriaeth i'r hyn y gall ychwanegu gwerth yn fuan iawn o ran amserlen
- Bydd y grŵp yn annog cydweithio ac yn ystyried sefydlu is grwpiau er mwyn cynnwys mewnbwn ystod eang o fudiadau sy'n ymdrin â thlodi.

Cafwyd diweddariad gan Sian Williams cadeirydd y grŵp effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau.

Nododd SW fod gweithdy newid Hinsawdd wedi ei drefnu ar gyfer fory (6.7.18). Cytunwyd i adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf mis Medi.

Amcan 2 - Trigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da

Cafwyd diweddariad gan Chris Lynes ar ran Ffion Johnstone Cadeirydd y grŵp Iechyd a Gofal oedolion.

Nododd CL fod y cyfarfod cychwynnol wedi cael ei chynnal wythnos diweddaf yn absenoldeb FfJ. Mae'r grŵp gweithredol canlynol wedi ei hadnabod, ac arweinyddion posib :

1. Is Grwp cyflawni Integredig Lles - (Siobhan Adams)
2. Is Grwp Cyflawni Integredig Plant a phobl ifanc (Fôn Roberts/ Marian Parry Hughes)
3. Is Grwp Cyflawni Integredig Oedolion - (Alwyn Jones / Aled Davies)
4. Is Grwp Iechyd Meddwl - (Sam Watson)
5. Is Grwp / Grwpiau Tasg a Gorffen

Cytunwyd i'r Grŵp adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn dilyn eu cyfarfod nesaf o'r grŵp a chyflwyno rhaglen waith.

Sylwadau :

- Holwyd os bydd cylch gorchwyl yn cael ei lunio ar gyfer yr is-grwpiau, cytunwyd bod hyn yn fater i'w drafod yn y cyfarfod nesaf o'r Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig.
- Nodwyd fod cydberthynas rhwng rhai o'r themâu'r - e.e. Tlodi. Yn ogystal cafwyd trafodaeth am gynnwys cynrychiolaeth ehangach yn rhai o'r is-grwpiau e.e. addysg. Cytunwyd i drafod aelodaeth ymhellach yn ystod cyfarfod nesaf o'r Grŵp Iechyd a Gofal Integredig.

6. Cydweithrediad BGC Rhanbarthol Gogledd Cymru - cynnig cyllid a ffiniau'r cyllid

Cyfeiriwyd at y cyllid sydd ar gael i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y gogledd. Cyfanswm o £83,000 sydd i'w wario ar agweddau penodol sef:

- Ymgysylltu Cymunedol cydlynus a pharhaus
- Data "amser real" ar gael
- Cefnogi byrddau i fonitro a gwerthuso cynnydd
- Adnabod bylchau yn y sail dystiolaeth

Nodwyd fod modd defnyddio'r cyllid i ymateb i'r bylchau sydd mewn data yng Ngwynedd ac Ynys Môn, cytunwyd i ddiweddarau'r Bwrdd ar y defnydd ohono.

2	Gweithred:	Anfon syniadau / sylwadau am ddefnydd o'r cyllid i sylw Dewi trwy e-bost
---	------------	--

7. Gohebiaeth

Rhannwyd copiâu o ohebiaeth a dderbyniwyd gan y Bwrdd.

Papur B - Y cynnig gan Lywodraeth Cymru am gymorth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunwyd y bydd sesiwn hanner diwrnod o fudd i'r Bwrdd. Cytunwyd i NH weithredu

3	Gweithred:	NH i drefnu sesiwn hanner diwrnod ar y pwnc 'Byrddau Iach'.
---	------------	---

Papur C - Gweithdy ACE - Siobhan Adams & Elizabeth Woodcock yn mynychu

Papur D - Papur ar Fesur Plant er gwybodaeth.

Papur E - Adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Pecyn er gwybodaeth. Cyfeiriwyd at ddisgwyliadau'r Comisiynydd yn bennaf.

Papur F - Hyfforddiant Datblygu Cymunedol. Er Gwybodaeth

8. Heriau a Chyfleon - eitem Sefydlog

Dim newidiadau i'w cyflwyno

9. Unrhyw Fater Arall

Hysbysodd Sian Williams y Bwrdd am y cydweithio sydd wedi digwydd ar brosiect sy'n ymwneud ag ymylon lonydd, bywyd gwyllt ayyb. Gofynnodd Sian am y cyfle i roi diweddariad ar y prosiect yn ystod cyfarfod nesaf y Bwrdd.

4	Gweithred:	Eitem i'w ychwanegu at agenda nesaf y Bwrdd
---	------------	---

10. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Nodwyd manylion y trefniadau ar gyfer cyfarfod nesaf o'r Bwrdd ar 12 Medi, 2018 am 10yb yn Nhŷ Menai, Parc Menai, Bangor, Gwynedd.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 16:00